


# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

10fed o Ebrill 2019

Annwyl Riant / Warcheidwad

**PROBLEMAU GYDA'R APP SCHOOP**

Mae rhai rhieni wedi ein hysbysu nad ydynt bellach yn derbyn hysbysiadau pan mae neges trwy Schoop yn cael ei ddanfon. Rwyf wedi cysylltu â Schoop sydd wedi cynnig yr arweiniad canlynol:

Ewch i mewn i'r App Schoop
Pwyswch yr eicon gosodiadau yn y gornel dde isaf
Pwyswch 'Renew my subscription'

Os ydych chi'n parhau i gael unrhyw broblemau, rhowch wybod i'r ysgol neu gallwch chi gysylltu â Schoop yn uniongyrchol:

Ymholiadau cyffredinol: 029 2078 2975
E-bost: support@schoop.co.uk

**GWYLIAU'R PASG**

Daw'r tymor i ben ar y 12fed o Ebrill 2019 a bydd y disgyblion yn **dychwelyd i'r ysgol ar 30ain o Ebrill 2019**. Mae dydd Llun 29ain o Ebrill yn ddiwrnod hyfforddi staff.

**ARIAN FFRWYTHAU AR GYFER YR HANNER TYMOR NESAF**

Os hoffech i'ch plentyn dderbyn ffrwyth bob dydd yn ystod yr hanner tymor nesaf, anfonwch £4.50 mewn amlen wedi'i labelu'n glir. Fel arall, rydym yn eich annog i anfon darn o ffrwyth i'ch plentyn ei fwyta yn ystod egwyl y bore.

**CYFARFOD RHIENI AG ESTYN**

Dyma gyfle i chi gyfarfod â'r Tîm Arolygu a hoffai gasglu eich barn am yr ysgol. Cynhelir y cyfarfod ar 7fed o Fai am 3:45 pm. Bydd yna wasanaeth gofal plant ar gael ynghyd â lluniaeth.

Diolch a mwynhewch wyliau'r Pasg!

C Evans
Pennaeth